CYHOEDDIAD

# Cylchlythyr Asesydd Interim Diogelu'r Amgylchedd Cymru (IEPAW): Mehefin 2023

Mae’r IEPAW wedi ymrwymo i gyhoeddi cylchlythyrau ar eu gwaith.

**Cyhoeddwyd gyntaf:** 20 Mehefin 2023

**Diweddarwyd ddiwethaf:** 13 Ebrill 2023

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/cylchlythyr-asesydd-interim-diogelur-amgylchedd-cymru-iepaw-mehefin-2023-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am **hawlfraint**.

# Cynnwys

**Cyflwyniad**

**Diweddariad ar gyflwyniadau a dderbyniwyd gan IEPAW**

**Adroddiad ar Fil Cyfraith yr UE a Ddargedwir**

**Blaenraglen waith - adroddiadau**

**Adolygiad IEPAW o adnoddau**

**Diweddariadau diweddar**

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/cylchlythyr-asesydd-interim-diogelur-amgylchedd-cymru-iepaw-mehefin-2023-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am **hawlfraint**.

# Cyflwyniad

Mae Asesydd Interim Diogelu'r Amgylchedd Cymru (AIDAC) yn goruchwylio gweithrediad cyfraith amgylcheddol yng Nghymru ac yn rhoi cyngor i Weinidogion Cymru er mwyn gwella canlyniadau amgylcheddol.

Mae IEPAW yn bwriadu cyhoeddi diweddariadau rheolaidd ar gynnydd eu gwaith. Dyma'r ail ddiweddariad yn y gyfres.

# Diweddariad ar gyflwyniadau a dderbyniwyd gan IEPAW

Ers y cylchlythyr diwethaf ym mis Hydref 2022, mae pedwar cyflwyniad wedi dod i law yn ymwneud â'r pryderon canlynol:

- Dympio gwastraff gwenwynig
- Diffyg amddiffyniad ar gyfer coed a choetir a diffyg gorfodi o dan y ddeddfwriaeth bresennol
- Ardaloedd Gwarchodaeth Arbennig (AGA)
- Rôl y gyfraith gynllunio wrth amddiffyn Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SoDdGA)

Er nad oes gan IEPAW unrhyw gynlluniau gweithredol i gychwyn adroddiad ar halogiad tir ar hyn o bryd, gofynnwyd am ragor o wybodaeth gan CNC a Llywodraeth Cymru.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/cylchlythyr-asesydd-interim-diogelur-amgylchedd-cymru-iepaw-mehefin-2023-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am **hawlfraint**.

## Adroddiad ar Fil Cyfraith yr UE a Ddargedwir

Ar 16 Chwefror 2023, cyflwynodd IEPAW adroddiad byr i Weinidogion Cymru ar Fil Cyfraith yr UE a Ddargedwir (Dirymu a Diwygio) a gynigir gan Lywodraeth y DU. **Ymatebodd Llywodraeth Cymru i'r adroddiad hwn** ar 12 Mai 2023.

## Blaenraglen waith - adroddiadau

Mae IEPAW yn parhau i weithio ar ei adroddiad ar goedwigaeth. Mae'r adroddiad hwn yn cymryd mwy o amser na'r disgwyl, ond y nod yw ei gyhoeddi o fewn yr ychydig fisoedd nesaf. Bydd yr adroddiad yn canolbwyntio ar orchmynion cadw coed, y Ddeddf Coedwigaeth a materion cysylltiedig.

Cynhaliodd IEPAW gais am dystiolaeth ar ddiogelu a rheoli gwrychoedd a gaeodd ddiwedd mis Medi 2022. Roedd hyn yn dilyn trafodaeth banel ar y mater hwn yn ystod y Sioe Fawr. Mae IEPAW yn defnyddio'r dystiolaeth hon i lywio adroddiad ynghylch a yw Rheoliadau Gwrychoedd 1997 yn bodloni ei nod o ddiogelu gwrychoedd yn effeithiol.  Mae'r adroddiad hwn bron yn barod a bydd yn cael ei gyhoeddi'n fuan.

Mae IEPAW hefyd yn gweithio ar adroddiad i'r fframwaith cyfreithiol mewn perthynas â safleoedd gwarchodedig. Cynhaliodd IEPAW ford gron ar y mater hwn ym mis Tachwedd 2022, gyda chais am dystiolaeth yn dilyn. Nod IEPAW yw cwblhau'r adroddiad hwn tua diwedd y flwyddyn. Mae'r mater hwn hefyd yn cael ei ystyried gan gyrff llywodraethu amgylcheddol eraill y DU, ac mae IEPAW yn cyfarfod â nhw yn rheolaidd i drafod cynnydd eu gwaith.

Mae IEPAW yn bwriadu dechrau gweithio ar adroddiad ar y defnydd o sancsiynau sifil mewn cyfraith amgylcheddol. Nod yr adroddiad hwn fydd ystyried a oes gan reoleiddwyr yng Nghymru yr offer sydd eu hangen arnynt i

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/cylchlythyr-asesydd-interim-diogelur-amgylchedd-cymru-iepaw-mehefin-2023-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybdaeth am **hawlfraint**.

sicrhau cydymffurfiaeth â chyfraith amgylcheddol, ac a fyddai ehangu'r defnydd o sancsiynau sifil mewn cyfraith amgylcheddol yn gwella canlyniadau amgylcheddol.

Mae IEPAW yn parhau i ddilyn datblygiadau sy'n ymwneud ag ansawdd dŵr yng Nghymru, yn enwedig ar ollyngiadau carthion i gyrsiau dŵr Cymru. Mae hyn yn cynnwys camau gweithredu sy'n codi o adroddiad Pwyllgor CCEI y Senedd ar orlifoedd stormydd a gyhoeddwyd ym mis Mawrth 2022.

## Adolygiad IEPAW o adnoddau

Yn unol ag adroddiad Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith y Senedd ar Weithredu Mesurau Interim Diogelu'r Amgylchedd Cymru, mae Llywodraeth Cymru wedi cynnal adolygiad o'r broses o ganfod a darparu adnoddau ar gyfer IEPAW.

Ar ôl cwblhau'r adolygiad, mae'r Gweinidog Newid Hinsawdd wedi gwneud yr ymrwymiadau canlynol:

- Penodi Dirprwy IEPAW,
- Recriwtio staff dynodedig i ddarparu cymorth ysgrifenyddiaeth i IEPAW, a
- Bydd rhagor o arian ar gael i IEPAW sicrhau cymorth ac arbenigedd drafftio ychwanegol.

Mae ymrwymiad Llywodraeth Cymru i ddarparu'r adnodd ychwanegol hwn, mawr ei angen, yn cael ei werthfawrogi'n fawr gan IEPAW.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/cylchlythyr-asesydd-interim-diogelur-amgylchedd-cymru-iepaw-mehefin-2023-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybdaeth am **hawlfraint**.

# Diweddariadau diweddar

Mae'r AIDAC **newydd diweddaru ei gwefan**.

**Efallai na fydd y ddogfen hon yn hollol hygyrch.**
Drllenwch ein **datganiad hygyrchedd** i gael rhagor o wybodaeth.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/cylchlythyr-asesydd-interim-diogelur-amgylchedd-cymru-iepaw-mehefin-2023-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybdaeth am **hawlfraint**.